**Cyngor Rhondda Cynon Taf**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 20 Hydref 2021 am 5pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd M Forey |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd R Yeo | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd R Turner | Y Cynghorydd G Thomas |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd M Adams |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd D Owen-Jones | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd S Belzak |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd K Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd J Harries | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd E George | Y Cynghorydd H Fychan |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd A Davies-Jones |
| Y Cynghorydd J Davies | Y Cynghorydd J Cullwick |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd A Chapman |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd J Barton |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr R Waters, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr P.Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella

**64 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr Bwrdeistref y Sir Sera Evans, A S Fox, M Fidler Jones, G Holmes, G Hopkins, P Howe, J James AS, W Jones, S Pickering, S M Powell, S Rees-Owen, J Rosser, E Stephens a M Tegg.

**65 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman y buddiant personol canlynol mewn perthynas â'r eitem ganlynol ar yr agenda:

Eitem agenda 6 - **GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR**

Eitem agenda 9 **- ADOLYGU RHEOLIADAU, YMWYBYDDIAETH A GORFODI DEDDFWRIAETH LLIFOGYDD A DŴR**

"Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2021-2022 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid".

**66 Cyhoeddiadau**

**Munud o ddistawrwydd**

Cafwyd munud o dawelwch, dan arweiniad Arweinydd y Cyngor, er cof am yr Aelod Seneddol Syr David Amess a lofruddiwyd yn ddiweddar ac er cof am y 116 o blant a 28 o oedolion a fu farw yn nhrychineb Aberfan 55 mlynedd yn ôl.

**Cyhoeddiadau**

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S A Bradwick yn dymuno llongyfarch fferyllfa Sheppard's, Abercwmboi, Aberdâr am gael ei enwebu am ddwy Wobr, Gwobr Ymarfer Fferylliaeth Gymunedol Annibynnol y Flwyddyn a'r Wobr Rhagoriaeth Cyflwyno Hunanofal mewn Fferylliaeth Gymunedol. Enwebwyd y practis ar gyfer y gwobrau yma yn sgil ymroddiad ac ymrwymiad ei staff yn ystod y pandemig. Roedd yn cystadlu yn erbyn 500 o enwebiadau i gyrraedd y 3 olaf. Mae'r enwebiadau'n cydnabod gwaith caled y staff a'r cymorth a gynigwyd i'r gymuned yn ystod cyfnod anodd iawn a dymunai'r Cynghorydd Bradwick ddiolch i'r aelodau staff Katherine Sweet, Katherine Whatberts, Anna Matthews a'r Cynghorydd Tina Williams am barhau i wneud hynny. Gofynnodd i'r Maer anfon llythyr i'w llongyfarch.

Roedd y Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman yn dymuno llongyfarch meibion un o breswylwyr ei ward, yr Awyr-Lefftenant Steve Jones sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu yn Ynysoedd y Falklands ac sydd wedi ennill Gwobr Gyswllt Wally Marriot Cymdeithas yr Awyrlu Brenhinol am ei waith gyda chyn-filwyr yn ystod y Pandemig. Mae'r wobr yn cydnabod ei waith, ei ymrwymiad a'i ymroddiad i gefnogi cyn-filwyr. Cyhoeddwyd bod yr Awyr-Lefftenant Steve Jones yn gaffaeliad mawr i'r gwasanaeth ac yn llwyr haeddu'r wobr. Roedd y Cynghorydd Jarman hefyd yn gobeithio y byddai'r Maer yn anfon llythyr i

longyfarch yr Awyr-Lefftenant Steve Jones.

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis fod Hope Rescue yn Llanharan wedi'i gydnabod gan Wobrau PawPrints 2021 yr RSPCA, a hynny ar ôl cyflawni Gwobr Efydd yn y categori Cytiau Cŵn. Mae PawPrints yn cael ei redeg gan yr RSPCA i gydnabod awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, cynllunwyr wrth gefn a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus sy'n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol neu statudol i sicrhau safonau lles uwch i anifeiliaid yn y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Mae ennill Gwobr PawPrints eleni yn enwedig yn gyflawniad enfawr.

## 67 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2021, yn rhai cywir.

## 68 Cwestiynau gan yr Aelodau

**Cwestiynau gan yr Aelodau**

Dywedwyd wrth yr Aelodau y derbyniwyd ymddiheuriadau o absenoldeb gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Rosser, yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Oedolion a’r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins a Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox ac felly byddai ymatebion ysgrifenedig mewn perthynas â chwestiynau 4, 7, 8 a 10 yn cael eu rhannu â'r holl Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi hefyd na fydd cwestiynau 5 a 18 yn codi yn sgil ymddiheuriadau gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S M Powell a P Howe.

1. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

“A all Arweinydd y Cyngor wneud datganiad ar y cynlluniau i ddatblygu Coridor Trafnidiaeth y Gogledd Orllewin?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod cam cychwynnol y gwaith wedi'i gomisiynu gan Drafnidiaeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Dinas Caerdydd a Llywodraeth Cymru a bod astudiaeth drafnidiaeth ar Goridor y Gogledd Orllewin wedi'i lunio, gyda'r gobaith o geisio gwella cysylltedd teithio rhwng cymunedau yn RhCT a gogledd orllewin Caerdydd.

Amlygodd yr Arweinydd rai o'r cynlluniau penodol sydd wedi'u nodi i wella cysylltiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth ar hyd y Coridor erbyn 2025, er enghraifft, cynyddu nifer y gwasanaethau ar Linell y Ddinas i o leiaf bedwar trên yr awr rhwng Caerdydd Canolog a Radur gyda gorsaf newydd ym Melin Trelái, gwelliannau i orsaf reilffordd Ystad Ddiwydiannol Trefforest a gwasanaeth parcio a theithio gyda bysiau strategol ger Cyffordd 33 yr M4. Mae'r pecynnau hyn o fesurau yn cynrychioli ffordd fwy teg o deithio.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo:**

Rwy'n croesawu prosiect Llwybr Trafnidiaeth Beddau. Pa fath o fanteision mae'r Arweinydd yn credu bydd y cynllun yn ehangach yn eu cynnig?

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn brosiect sylweddol a fydd yn cynnig llawer o fanteision i'r trigolion lleol a'r rhai sy'n cymudo ar hyd yr A4119 sy'n llawn tagfeydd, a'i fod yn gobeithio y byddai'n dod â phecyn o fesurau a fyddai'n cynnig dewis arall cynaliadwy yn lle'r rhwydwaith ffyrdd sy'n dod dan bwysau cynyddol.

2. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E George i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

"A all Arweinydd y Cyngor amlinellu pa drafodaethau sydd wrthi'n cael eu cynnal trwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu'n uniongyrchol trwy RhCT mewn perthynas â setliad cyllideb y flwyddyn nesaf?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod pob un o 22 Arweinydd y Cynghorau yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans, ac roedd yr Arweinydd wedi cyfarfod â'r is-grŵp Cyllid a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Mae'r trafodaethau wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweld cynnydd sylweddol yn eu cyllideb y flwyddyn nesaf, yn rhannol yn sgil y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Ar 27 Hydref 2021, bydd adolygiad gwariant cynhwysfawr yn cael ei gyhoeddi.

Ychwanegodd yr Arweinydd y bydd cyfran fawr o unrhyw arian ychwanegol i Lywodraeth Leol yn mynd yn ôl i Drysorlys Llywodraeth y DU oherwydd y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Cafwyd buddsoddiad sylweddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn eleni i leddfu'r pwysau ar ofal cymdeithasol ac mae'n debyg y bydd cyllid pellach ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

Dywedodd yr Arweinydd, er bod y cyllid yn ystod y flwyddyn yn sylweddol ac i'w groesawu, mae'n arwydd o'r pwysau ar y sector gofal cymdeithasol ac y bydd yn cael llai o effaith yn y flwyddyn i ddod oherwydd gofynion diweddaru sylfaenol ar gyfer costau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Dywedodd yr Arweinydd y dylid lobïo Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn y 27 Hydref i sicrhau bod yr arian ychwanegol yn cael ei roi i lywodraethau lleol.

I gloi, nododd yr Arweinydd fod y Llywodraeth yn darparu gwerthoedd a dosraniadau grant dangosol nawr er mwyn i awdurdodau lleol allu cynllunio eu cyllidebau yn effeithlon.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E George:**

"Beth yw blaenoriaethau'r Arweinydd ar gyfer y flwyddyn nesaf?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd mai gofal cymdeithasol fydd prif flaenoriaeth y Cyngor y

flwyddyn nesaf a'r maes fydd yn derbyn y rhan fwyaf o unrhyw gyllid ychwanegol. Mae ysgolion bob amser wedi cael eu gwarchod ac yn parhau i gael eu gwarchod, a llynedd defnyddiwyd cyllid sylweddol i hybu gwasanaethau cymorth fel Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sydd wedi chwarae rhan allweddol wrth sicrhau iechyd a lles cyhoeddus ein cymunedau, yn ogystal â Gwasanaethau Ieuenctid y Cyngor. I gloi, dywedodd yr Arweinydd bod y broses ymgynghori ar y gyllideb ar y gweill a chyn bo hir bydd yr Aelodau'n derbyn adroddiad ar oblygiadau'r Setliad Dros Dro.

**3. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L M Adams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M A Norris:**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet ddarparu diweddariad ar gyflwyno prosiect y Cyngor i gyflwyno Wi-Fi am ddim yng nghanol ein trefi?

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris:**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Norris fod y cynllun yn rhan o gymorth ehangach y Cyngor i adfywio canol trefi. Mae'n cefnogi masnachwyr i weithredu'n ddigidol ac yn eu helpu i gynyddu eu presenoldeb ar-lein i gysylltu â rhagor o gwsmeriaid. Mae hefyd yn gymhelliant ychwanegol i annog preswylwyr i siopa'n lleol. Mae'r gwasanaeth wedi'i achredu'n llawn gan y gwasanaeth Friendly Wi-Fi, sy'n gynllun gan y llywodraeth sy'n rhwystro pobl rhag cyrchu tudalennau gwe a chynnwys amhriodol a nodwyd gan y Internet Watch Foundation wrth ddefnyddio gwasanaeth Wi-Fi y Cyngor. Mae hyn yn rhoi hyder i breswylwyr y gellir mwynhau'r gwasanaeth a'i ddefnyddio'n ddiogel.

Dywedodd y Cynghorydd Norris fod Wi-Fi am ddim wedi'i gyflwyno i ganol tref Tonypandy yn ddiweddar ac erbyn diwedd y mis rhagwelir y bydd gan yr olaf ar y rhestr, canol tref Pontypridd, Wi-fi am ddim hefyd. Bu'n rhaid symud dyddiad cwblhau'r prosiect ym Mhontypridd yn sgil cymhlethdodau cysylltu gwasanaeth band-eang y Cyngor yn Nhŷ Sardis i'r system. Serch hynny, mae'r profion olaf ar y signalau cyn lansio ar waith.

I gloi, nododd y Cynghorydd Norris mai'r addewid gwreiddiol yn ystod yr Etholiad diwethaf oedd treialu Wi-Fi am ddim yng nghanol 7 o brif drefi'r ardal ac roedd yn un o'r 12 addewid craidd a wnaed. Canol Tref Pontypridd yw'r ardal olaf ar y rhestr o ran cyflawni'r prosiect Wi-Fi am ddim.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.**

**4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

"A oes modd i Arweinydd y Cyngor roi diweddariad ar ba drafodaethau a gynhaliwyd gyda Thrafnidiaeth Cymru ar gynlluniau Metro De Cymru a rhoi diweddariad ar y gwaith i baratoi ar gyfer trydaneiddio llinellau'r Cymoedd?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Esboniodd yr Arweinydd ei fod, yn ei rôl fel Arweinydd y Cyngor, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac fel Prif Lefarydd Trafnidiaeth Cymru yn

cynnal trafodaethau rheolaidd â Thrafnidiaeth Cymru. Fel ymhob diwydiant, bu rhywfaint o oedi o ran cynnydd yn sgil Covid, ond mae gwaith i osod polion yn y Cymoedd ar gyfer y gwifrau uwch ben y rheilffordd wedi dechrau. Amlygodd fod y gwaith gosod polion gyda pheiriant yn mynd i fod yn dawel, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o bolion angen gwaith morthwylio, ac mae hynny'n waith sy'n achosi cryn dipyn o aflonyddwch. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau yng Nghwm Cynon, bydd yn symud ymlaen i Gwm Rhondda y flwyddyn nesaf. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi nodi bod rhwng 3 a 6 mis o oedi yn amserlen y prosiect ond mae wedi ymrwymo i drydaneiddio Cledrau'r Cymoedd yn llawn gyda threnau newydd wedi'u harchebu ac mae'r gwaith i ddepo Ffynnon Taf ar y gweill.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Bonetto:**

"A all yr Arweinydd ddarparu gwybodaeth am ansawdd y trenau newydd a rhai o'r nodweddion ychwanegol fydd ganddynt?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi cael cyfle yn ddiweddar i weld modelau'r trenau newydd i weld yn uniongyrchol yr ansawdd gwell a'r nodweddion megis WI-FI, gwefryddion ffôn ger pob sedd gyda phlyg ar gyfer gliniaduron. Mae yna hefyd fannau pwrpasol ar gyfer beiciau, yn arbennig i aelodau'r cyhoedd sydd eisiau manteisio ar deithio llesol a beicio i'r orsaf.

Esboniodd yr Arweinydd fod y trenau newydd yn dawelach a fydd hynny o fudd i'r preswylwyr sy'n byw ger y rheilffyrdd. Bydd trenau'n gweithredu yn hwyrach yn y nos, yn amlach ac yn cynnig gwasanaeth mwy effeithlon ar y penwythnosau. Ychwanegodd fod y trenau newydd yn gyflymach. Bydd y gwasanaeth o Aberdâr i Gaerdydd a'r gwasanaeth o Dreherbert i Gaerdydd oddeutu 14 munud yn gyflymach na'r gwasanaethau presennol. Bydd y trenau newydd yn cynnig gwasanaeth cyhoeddus mwy hyfyw a deniadol i gymudwyr.

5. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G P Thomas i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

"A all Arweinydd y Cyngor ddarparu diweddariad ar atyniad Zip World, gan fanylu ar nifer y swyddi gafodd eu creu, nifer yr ymwelwyr i'r atyniad hyd yn hyn a'r hwb economaidd posibl i'r Sir?"

Dywedodd yr Arweinydd fod Zip World wedi bod yn llwyddiant hyd yma a nifer yr ymwelwyr yw 49,656 (cyfranogwyr yn cymryd rhan ar y llinellau zip neu'r certiau) gyda 14,897 (gwylwyr) sy'n cyfateb i bron i 65,000 o ymwelwyr ers iddo agor. O ran cyflogaeth, mae 150 o weithwyr wedi'u cyflogi trwy Zip World gyda 105 yn gyflogedig ar hyn o bryd (mae'r gostyngiad yn y niferoedd yn cael ei briodoli i waith tymhorol ac am fod tymor y gaeaf newydd ddechrau). Y trosiant hyd yma yw £2.5 miliwn. O ran y rhagweld, mae'r gwariant lleol oddeutu £16.25 miliwn ar draws y rhanbarth (gyda chyfyngiadau yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr) sy'n cynnwys arlwywyr, llety fel Airbnb, darparwyr bysiau / teithio ac mae'n bosibl y bydd buddsoddiadau pellach o ganlyniad i Zip World.

Roedd yr Arweinydd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r swyddogion o'r Cyngor sydd wedi helpu i yrru'r prosiect yn ei flaen.

**69 Rhaglen Waith y Cyngor 2021/22**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd ar gyfer 2021/22 gan gynghori bod Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2020-2030 wedi'i ohirio tan gyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2022. Bydd adroddiad Rhyddid y Fwrdeistref hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei drafod y mis nesaf. Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn dod i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 4pm i ddarparu ar gyfer yr eitem yma.

**70 Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Trwy ei adroddiad rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol gyfle i'r Aelodau adolygu lefel y gostyngiad Treth y Cyngor ar gyfer dosbarthiadau rhagnodedig o anheddau yn y Fwrdeistref Sirol ac adolygu, diwygio neu ailddatgan y lefel a ragnodwyd.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 4 yr adroddiad a oedd yn amlinellu gofynion y Cyngor mewn perthynas â darpariaeth gostyngiad Treth y Cyngor, gyda'r Cyfarwyddwr yn dweud bod gan y Cyngor ddisgresiwn i ddyfarnu gostyngiad o hyd at 50% mewn perthynas â dau ddosbarth o anheddau rhagnodedig (a ddisgrifir fel arfer fel ail gartrefi a chartrefi gwyliau). Hynny yw, Dosbarth A a Dosbarth B. Cafodd yr Aelodau gyngor pellach fod y Cyngor wedi penderfynu o'r blaen i beidio â chaniatáu gostyngiad mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B a C. I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'w drefniadau cyfredol.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai adolygiad yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Craffu priodol mewn perthynas â lefel y gostyngiad ar gyfer dosbarthiadau rhagnodedig o anheddau, sef eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi, a oedd wedi'i groesawu.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Cyfarwyddwr, bod nifer yr anheddau gwag tymor hir yn RhCT wedi gostwng 19% ers dileu'r gostyngiad eiddo gwag ar 1 Ebrill 2018.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cytuno i barhau ag unrhyw ostyngiad Treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C.

**71 Adroddiad ar Gyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2021/22 (Drafft)**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Cyflawniad Gwasanaethau a'u Gwella ddrafft o Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol Rhondda Cynon Taf, sy'n nodi'r cynnydd yn 2020/21 a'r cynlluniau ar gyfer 2021/22 mewn perthynas â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Mae hefyd yn nodi sut mae'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn cyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor, fel gyda phob Cyngor yng Nghymru, i gyhoeddi amcanion, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny a llunio adroddiad blynyddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn adroddiad cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i osod yng nghyd-destun yr heriau digynsail a gyflwynwyd gan bandemig Covid 19 a'r adferiad ers Storm Dennis. Ychwanegodd fod yr wybodaeth yn cynnwys ystod o ffynonellau, gwybodaeth am wasanaeth, adroddiadau gan reoleiddwyr allanol a rhoddwyd sylw allweddol i adroddiad cyflawniad diwedd blwyddyn 2020/21 y

Cyngor a adroddwyd i'r Cabinet ac a gafodd ei graffu gan y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad ym mis Gorffennaf 2021.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021, wedi argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol. Yn ddibynnol ar drafodaeth y Cyngor, bydd y cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer y tair blaenoriaeth Pobl, Lle a Ffyniant yn rhan o'r Adroddiad Cyflawniad Chwarterol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu ar faterion Cyllid a Chyflawniad yn ystod y flwyddyn. Mae gan reoleiddwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, ddyletswydd statudol i archwilio'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol a fydd yn cael ei adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor maes o law.

Talodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol deyrnged i holl staff, staff rheng flaen, gweithwyr gofal cymdeithasol a phartneriaid fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am eu gwaith yn ystod y pandemig Covid 19.

Yn dilyn trafodaethau, dywedodd yr Arweinydd fod pwyllgorau craffu’r Cyngor yn parhau i graffu ar ymateb parhaus y Cyngor i’r pandemig ac wrth symud ymlaen mae’n debygol y gofynnir iddo, fel Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad Cymreig ac ymchwiliad y Deyrnas Unedig i’r pandemig ond pwysleisiodd na ddylai fwrw bai, dylai ganolbwyntio ar ddysgu gwersi.

Lle nodwyd hynny, cadarnhawyd y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu i'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod. Yn ogystal â'r ymholiadau eraill a godwyd, dywedodd y Prif Weithredwr fod adroddiad diweddar ynghylch prosiectau bioamrywiaeth y Cyngor wedi'i gyflwyno i'r Cabinet i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Yn yr un modd, cyflwynir adroddiad yn flynyddol i'r Cabinet yn amlinellu nifer a natur y cwynion i'r Awdurdod Lleol. RhCT yw'r Awdurdod Lleol sy'n derbyn yr ail nifer isaf o gwynion fesul person.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo drafft yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021.

(**Noder:** Roedd yr Aelodau a oedd yn bresennol o Grŵp Annibynnol RhCT (Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell, L Walker, K Jones, W Owen) a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Belzak yn dymuno cofnodi'u henwau'n rhai sy'n gwrthwynebu cymeradwyo drafft yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol)

## 72 Ymateb i Gynigion Cychwynnol Comisiwn Ffiniau i Gymru

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad yn cynnwys cynigion cychwynnol Comisiwn Ffiniau i Gymru mewn perthynas â'r etholaethau seneddol newydd arfaethedig yng Nghymru, fel y cyfeiriwyd atyn nhw gan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar adborth y Cyngor ar ôl i'r Aelodau ei drafod, ar sail drawsbleidiol, trwy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 12 Hydref 2021.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd y llythyr sy'n cynnwys yr adborth yn sail i ymateb ffurfiol y Cyngor i Gomisiwn Ffiniau i Gymru, oni bai fod unrhyw ychwanegiadau neu welliannau pellach.

Ar ôl trafod yr ymatebion, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r sylwadau yn y

llythyr drafft fel ymateb ffurfiol yr Awdurdod Lleol, yn amodol ar fewnosod y sylwadau a ganlyn:

"*Gan fod Aberaman ar un adeg wedi bod yn rhan o Gyngor Dosbarth Trefol Aberdâr, roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf bod perthynas hanesyddol Aberaman (Gogledd a De) yn fwy cysylltiedig ag Aberdâr, yn hytrach na'r wardiau etholiadol o etholaeth gyfagos Cwm Cynon sydd wedi'u cynnig ar gyfer eu cyfuno â Phontypridd.*"

## 73 Adolygu Rheoliadau, Ymwybyddiaeth a Gorfodi Deddfwriaeth Llifogydd a Dŵr

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Rheng Flaen adroddiad sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adolygiad o reoliadau, ymwybyddiaeth a gorfodi deddfwriaeth llifogydd a dŵr yn y Cyngor yn dilyn Storm Dennis. Cynghorodd yr adroddiad ymhellach am sefydlu carfan Ymwybyddiaeth a Gorfodi Llifogydd gwell yn dilyn cytundeb gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021 a chynigiodd fwy o reoleiddio trwy ddeddfu Is-ddeddfau Draenio Tir o dan Adran 66 o Ddeddf Draenio Tir 1991.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at argymhellion y Cabinet yn eu cyfanrwydd fel y nodir ym mhwynt 4.1.2 yr adroddiad ac o bwysigrwydd y Sesiwn Gwybodaeth i Aelodau a gynhaliwyd ar 28 Medi mewn perthynas â Rheoli Perygl Llifogydd ac Is-ddeddfau.

I gloi, esboniodd y Cyfarwyddwr sut mae'r is-ddeddfau cwrs dŵr cyffredin wedi'u cynllunio fel model i awdurdodau lleol naill ai eu defnyddio yn eu fformat cyfredol yn eu cyfanrwydd neu i helpu i ddatblygu is-ddeddfau unigol a fydd yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol i reoli'r risg uwch o lifogydd.

Yn dilyn trafodaeth ac ymatebion i gwestiynau a godwyd, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r argymhellion a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021 ac fel y nodir yn 4.1.2 o'r adroddiad;

2. Nodi bod sesiwn gwybodaeth i Aelodau mewn perthynas â mabwysiadu Is-ddeddfau Model o dan Ddeddf Draenio Tir 1991 ar 28 Medi 2021, a bod yr holl Aelodau wedi cael gwahoddiad i'r sesiwn; ac

3. Awdurdodi Swyddogion i ddechrau'r broses o fabwysiadu'r Is-ddeddfau Draenio Tir Enghreifftiol yn ffurfiol fel y mae ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad (ac fel yr argymhellwyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021) yn unol â Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

## 74 Penodi Aelodau Lleyg ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i gynghori'r Cyngor o'r trefniadau mewn perthynas â phenodi Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n dod i rym ym mis Mai 2022.

Gyda chyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod angen bwrw ymlaen â diwygiadau pellach

mewn perthynas ag aelodaeth a rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyfeiriodd at y pwyntiau allweddol yn ei adroddiad.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at adran 5 yr adroddiad a oedd yn nodi gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o ran aelodaeth a threfniadau cadeirio ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cynigiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod trefn aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei adolygu a'i leihau i 9 ar gyfer 2022-2023 gyda 6 Aelod Etholedig a 3 pherson lleyg. Gofynnodd i'r Cyngor ystyried ymestyn tymor swydd yr Aelod Lleyg presennol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod pellach, tan yr etholiadau Llywodraeth Leol cyffredin nesaf ym mis Mai 2022.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r trefniadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad sy'n ymwneud â phenodi Aelod Lleyg newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am dymor yn y swydd sy'n cychwyn o ddechrau Blwyddyn 2022-23 y Cyngor tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol arferol nesaf;

2. Cytuno, yn dilyn y broses recriwtio y manylir arni yn yr adroddiad, y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor er mwyn derbyn argymhellion gan y Pwyllgor Penodiadau mewn perthynas â phenodi Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;

3. Cytuno, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, ymestyn tymor swydd yr Aelod Lleyg cyfredol a benodwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Mr Christopher Jones, tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol cyffredin ym mis Mai 2022 (a drefnwyd ar hyn o bryd ar gyfer Mai 2027).

## 75 Cyfarfodydd Hybrid - Adolygiad o'r Cynnydd hyd yma

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i'r Aelodau am fanylion y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod Gorffennaf - Medi trwy drefniadau gweddarlledu hybrid a rhannu'r diweddaraf â'r Cyngor mewn perthynas â threfniadau gweithredu yn y dyfodol gyda chefnogaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn dilyn trafodaethau'r Cyngor ac yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o gynnydd y cyfarfodydd hybrid hyd yma, mai'r bwriad oedd cyflwyno'r dull hybrid yn raddol gyda chyfres o sesiynau arddangos cyn pob cyfarfod. Byddai hyn yn sicrhau amserlen gyson o gyfarfodydd ac yn ystyried anghenion pob Pwyllgor unigol.

I gloi, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at yr amserlen a nodwyd yn 6.6 yr adroddiad a oedd yn cynnwys cynnydd pwyllgorau craffu, rheoleiddio a llywodraethu.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnydd pellach a wnaed gyda'r dull o gyflwyno cyfarfodydd hybrid yn raddol sy'n cael ei grybwyll yn adran 3 yr adroddiad.

## 76 Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu drosolwg o'r Penderfyniadau Brys a gyflwynwyd gan Bwyllgor y Cabinet a Phenderfyniadau Dirprwyedig Swyddog Allweddol Brys a gyflwynwyd y tu allan i Bwyllgor y Cabinet yn ystod y cyfnod Mehefin - Medi 2021

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**77 Rhybudd o Gynnig**

Cafodd y Rhybudd o Gynnig canlynol ei gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol E Webster, K Morgan, P Jarman, S Evans, J Williams, A Cox, S Rees Owen, M Weaver, D Grehan, E Griffiths, H Fychan, E Stephens, L Jones, G Davies, A Chapman, J Davies a J Cullwick:

Bod y Cyngor yma'n ailystyried ei ddyletswydd o ran grymoedd gorfodi a'i ffordd o weithredu'r grymoedd hynny ar frys er mwyn sicrhau bod y strydoedd yn ddiogel ac yn hygyrch ac osgoi'r peryglon ynghlwm â thorri rheolau parcio yn ein cymunedau.

Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos bod plant mewn perygl o ganlyniad i fodurwyr yn parcio'n anystyriol ar briffyrdd a lonydd ger ysgolion ledled y Sir.

Mae tensiwn cynyddol yn ein cymunedau a rhwystredigaeth nad yw cyrff cyhoeddus, fel y Cyngor a'r heddlu, yn gwneud digon i amddiffyn ein plant rhag niwed,

ac mae'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan achosion o barcio peryglus ac anystyriol yn achosi tensiynau yn mynegi'r farn yma.

Er mwyn mynd i'r afael â materion o'r fath, a hynny ar frys, mae'r Cyngor yma'n penderfynu

Cyfeirio'r mater at y pwyllgor craffu perthnasol, yn gofyn i sefydlu gweithgor craffu ar frys a fydd yn nodi ystod o fesurau cynaliadwy ynghyd â chynigion i'w gweithredu i fynd i'r afael â'r mater, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

Cynnal adolygiad o'r hyn y gellir ei wneud i wella'r defnydd o bwerau cyfredol y Cyngor gan gynnwys defnyddio camerâu sefydlog cymeradwy mewn lleoliadau â phroblem a chynyddu patrolau.

Archwilio beth fyddai budd ymarfer gwybodaeth gyhoeddus yn atgoffa modurwyr i barcio'n gyfrifol bob amser.

Trafod galw ar Lywodraeth Cymru i greu deddfwriaeth ar gyfer troseddau traffig a nodwyd gan gamerâu cymeradwy fel ychwanegiad cadarnhaol at bwerau gorfodi cyfredol Cynghorau lleol

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r cynnig ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r cynnig.

(**Noder:** Roedd yr Aelodau canlynol a oedd yn bresennol, yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig:

**Grŵp Plaid Cymru** - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Cox, J Cullwick, G R

Davies, H Fychan, D Grehan, E Griffiths, P Jarman, L Jones, K Morgan, M Weaver, E Webster a J Williams.

**Grŵp Ceidwadol** - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L Hooper a S Trask

**Grŵp Annibynnol RhCT** - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L Walker a K Jones

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Belzak.)

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.10pm**

**Y Cynghorydd S Powderhill**
**Cadeirydd**